



Confensiwn Trethiant Dwbl y Deyrnas Unedig/Ffrainc

Maer ffurflen hon at ddefnydd unigolyn sy'n preswyllo yn Ffrainc ac sy'n cael Pensiwn y Wladwriaeth y DU, Budd-dal Analluogrwydd, pensiynau, blwydd-daliadau a brynwyd, llog neu freindaliadau sy'n codi yn y DU. Defnyddiwch y Nodiadau Ffrainc-Unigolyn i'ch helpu i lenwi'r ffurflen a gwnewch y canlynol:

- rhowch yr holl wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen a'r nodiadau, ac atodi unrhyw ddogfennau ategol y gofynnir amdanynt - os oes angen rhagor o le arnoch, atodwch ddalen ar wahân
• llofnodwch y datganiad yn Rhan F
• anfonwch y ffurflen, wedi'i llenwi, i'r Service des Impôts Particuliers ar gyfer yr ardal yn Ffrainc rydych yn byw ynddi (gweler Nodyn 4 o'r nodiadau)

Wrth wneud y cais neu'r hawliad hwn, rydych yn rhoi caniatâd i awdurdodau treth Ffrainc ardystio i Gyllid a Thollau EM (CThEM) yn y DU eich bod yn preswyllo yn Ffrainc at ddibenion treth Ffrainc. Gweler Nodyn 4 o'r nodiadau.

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon:

- ewch i www.gov.uk a chwilio am 'double taxation'
• ffoniwch ni ar +44 300 200 1900 os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU
• ffoniwch ni ar 0300 200 1900 os ydych yn ffonio o'r DU
• ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM, Talu Wrth Ennill a Hunanasesiad, Tŷ Thedford, Stryd Fawr, Porthmadog, LL49 9BF

Rhan A Eich manylion personol

Teitl ac enw llawn

Teitl
Enw llawn

Cyfeiriad preswyl llawn

[Address lines]

Rhif ffôn y gallwn ei ddefnyddio i gysylltu â chi. Gall hyn ein helpu i brosesu'ch ffurflen yn gyflym

[Phone number field]

Dyddiad geni DD MM BBBB

[Date of birth field]

Cenedligrwydd

[Nationality field]

Cyfeirnod treth yn Ffrainc

[French tax reference field]

Os nad ydych erioed wedi byw yn y DU, ticiwch y blwch

Os ydych wedi byw yn y DU ar unrhyw adeg, rhowch eich rhif Yswiriant Gwladol yn y DU

[Insurance number field]

a'r union ddyddiad y gadawsoch y DU

[Exit date field]

Os oes gennych ymgynghorydd treth, rhowch fanylion - gweler Nodyn 5 o'r nodiadau

Enw
Cyfeiriad
Rhif ffôn

Cyfeirnod neu enw cyswllt - os oes un

[Contact reference field]

Cyfeiriad y Service des Impôts Particuliers yn Ffrainc yr anfonwyd eich Ffurflen Dreth ddiwethaf iddo a'r dyddiad y'i hanfonwyd

[French tax authority address field]

At ddefnydd y Service des Impôts Particuliers yn Ffrainc

Llofnodwch a gosodwch eich stamp swyddogol, a dychwelwch y ffurflen at y cwsmer i'w hanfon ymlaen at: Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM, Talu Wrth Ennill a Hunanasesiad, Tŷ Thedford, Stryd Fawr, Porthmadog, LL49 9BF Cadwch gopi o'r ffurflen ar gyfer eich cofnodion.

Stamp swyddogol

Rwy'n ardystio bod

yn preswyllo yn Ffrainc at ddibenion treth Ffrainc.

Llofnod Dyddiad

## Rhan B

1 A ydych wedi byw yn Ffrainc ar hyd eich oes?

Ydw  Ewch i gwestiwn 6

Nac ydw

2 Ar ba ddyddiad y daethoch yn breswlydd yn Ffrainc?

DD MM BBBB

3 O ba ddyddiad yr ydych wedi talu, neu y byddwch yn talu, treth yn Ffrainc ar yr incwm yr ydych yn ei gynnwys yn y cais hwn? Gallai hyn fod yn wahanol i'r dyddiad rydych wedi'i roi yng nghwestiwn 2.

Os nad oes raid i chi dalu treth yn Ffrainc ar yr incwm hwn, rhowch y rhesymau ar ddalen ar wahân.

4 Ers i chi adael y DU, a ydych chi (neu, os ydych yn briod neu wedi ffurfio partneriaeth sifil, eich priod neu'ch partner sifil) wedi parhau i fod yn berchen ar eiddo neu wedi parhau i rentu eiddo yn y DU?

Ydw

Nac ydw

Os 'Ydw', rhowch fanylion llawn cyfeiriad yr eiddo ar ddalen ar wahân. Os ydych yn dal i fod yn berchen ar yr eiddo, ond mae'n cael ei rentu gan rywun arall, rhowch eu manylion, gan gynnwys yr incwm blynyddol disgwyledig. Os nad yw'r eiddo ar gael at eich defnydd mwyach, rhowch y rheswm (er enghraifft, mae'r eiddo wedi ei werthu neu mae'r denantiaeth wedi dod i ben) a rhowch y dyddiad yr oedd ar gael ddiwethaf at eich defnydd.

5 O dan Brawf Preswyllo Statudol y DU, os ydych wedi gadael y DU yn ystod y flwyddyn dreth gyfredol, cadarnhewch y byddwch naill ai:

yn ddibreswyl

yn gymwys i gael triniaeth blwyddyn ranedig

Sylwer: os ydych yn hawlio triniaeth blwyddyn ranedig, rhaid i chi fod yn ddibreswyl ar gyfer y flwyddyn dreth lawn ganlynol. Os yw hyn yn newid, rhaid i chi roi gwybod i CThEM.

6 Os gwnaethoch adael y DU yn ystod blwyddyn dreth flaenorol, cadarnhewch a ydych yn disgwyl cael eich ystyried yn ddibreswyl o dan y Prawf Preswyllo Statudol yn ystod y flwyddyn dreth gyfredol

Rwy'n cadarnhau y byddaf yn cael fy ystyried yn ddibreswyl

7 A ydych yn ymwneud ag unrhyw fasnach neu fusnes yn y DU, neu a ydych yn cyflawni gwasanaethau personol annibynnol o ganolfan sefydlog yn y DU?

Ydw  Rhowch fanylion llawn ar ddalen ar wahân

Nac ydw

Atebwch gwestiwn 8 os yw'ch hawliad yn cynnwys breindaliadau hawlfraint, fel arall gadewch ef yn wag.

8 Ai chi yw dechreuwr y gwaith neu'r cynnyrch sydd wedi'i drwyddedu i'r DU?

Ie

Nage

Os 'Nage', atodwch gopi o'r drwydded, y contract neu'r aseiniad a barodd i chi gael, gan y dechreuwr, yr hawliau sydd wedi'u his-drwyddedu i dalwr y DU. Gweler Rhan C4 o'r nodiadau.

# Rhan C Cais am ryddhad wrth y ffynhonnell rhag Treth Incwm y DU ac ad-daliad Treth Incwm y DU

I wneud cais am ryddhad wrth y ffynhonnell rhag Treth Incwm y DU, llenwch rannau C1, C2 neu C3 fel y bo'n briodol.

## C1 Pensiwn y Wladwriaeth neu Fudd-dal Analluogrwydd y DU

Os ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth y DU neu Fudd-dal Analluogrwydd y DU, ticiwch y blwch isod a nodwch ddyddiad y taliadau.

Pensiwn y Wladwriaeth y DU  Y dyddiad y dechreuodd y taliadau DD MM BBBB

Budd-dal Analluogrwydd y DU  Y dyddiad y dechreuodd y taliadau DD MM BBBB

## C2 Pensiynau a blwydd-daliadau a brynwyd sydd â'u ffynhonnell yn y DU

Rhowch fanylion llawn eich pensiynau gwaith ac unrhyw flwydd-daliadau a brynwyd isod.

Disgrifiad llawn o incwm ac enw a chyfeiriad talwr y DU	Cyfeirnod y talwr	Y dyddiad y dechreuodd y taliadau DD MM BBBB

## C3 Llog y DU

Pediwch â dangos llog banc na chymdeithas adeiladu yma. Ni all Cyllid a Thollau EM drefnu bod llog banc neu gymdeithas adeiladu yn cael ei dalu heb ddiynnu treth y DU. I gael ad-daliad ar gyfer treth a ddiynnwyd eisoes, defnyddiwch Ran D.

Swm a theitl llawn y warant	Enw a chyfeiriad cofrestredig y warant	Rhif cyfrif neu gyfeirnod y cofrestrydd	Dyddiadau taladwy DD MM BBBB

Os ydych yn derbyn llog o fenthyciadau a drefnwyd yn breifat, gweler Rhan C3 o'r nodiadau.

## C4 Breindaliadau

Atebwch y cwestiwn isod, yna llenwch golofnau A i C fel y bo'n briodol, gan roi'r wybodaeth y gofynnir amdani. Os ydych wedi cael breindaliadau gyda threth y DU wedi'i didynnu, llenwch Ran D i hawlio ad-daliad.

**Ai chi yw dechreuwr y gwaith neu'r cynnyrch sydd wedi'i drwyddedu i'r DU?** Ie  Nage

Os 'Nage', atodwch gopi o'r drwydded, y contract neu'r aseiniad a barodd i chi gael, gan y dechreuwr, yr hawliau sydd wedi'u his-drwyddedu i dalwr y DU.

### Am freindaliadau hawlfraint ar weithiau llenyddol, dramatig, cerddorol neu artistig nodwch y canlynol:

- disgrifiad llawn o'r breindaliadau yng ngholofn A
- dyddiad y contract rhyngoch chi a thalwr y DU yng ngholofn B
- enw a chyfeiriad y talwr yng ngholofn C - os gwneir taliadau drwy neu gan asiant yn y DU, nodwch enw a chyfeiriad yr asiant hefyd

### Am freindaliadau eraill nodwch y canlynol:

- disgrifiad llawn o'r breindaliadau yng ngholofn A
- dyddiad y cytundeb trwyddedu rhyngoch chi a thalwr y DU yng ngholofn B, ac atodwch gopi o'r cytundeb trwyddedu
- enw a chyfeiriad talwr y breindaliadau yn y DU yng ngholofn C

Colofn A	Colofn B	Colofn C

## Rhan D Hawlio ad-daliad Treth Incwm y DU

Rhowch fanylion unrhyw daliadau rydych eisoes wedi eu cael gyda threth y DU wedi'i didynnu.

Darllenwch Ran D o'r nodiadau os yw'r canlynol yn wir:

- rydych wedi cael taliad cymudiad pensiwn pitw
- rydych wedi cael cyfandaliad ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth Gohiriedig
- mae'r incwm o ymddiriedolaeth neu ystâd

Ffynhonnell incwm, er enghraifft: • cyfandaliad Pensiwn y Wladwriaeth • breindaliadau hawlfraint a dalwyd gan (enw a chyfeiriad y talwr)	Dyddiad talu'r incwm DD MM BBBB	Swm yr incwm cyn treth y DU £	Faint o dreth y DU a ddidynnwyd £

**Cyfansymiau**

--	--

## Rhan E Manylion taliadau ac awdurdod

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi Rhan E1 neu Ran E2, fel y bo'n briodol, os ydych am i ni wneud y canlynol:

- gwneud yr ad-daliad i enwebai
- anfon yr ad-daliad atoch i gyfeiriad heblaw'r cyfeiriad preswyl rydych wedi'i ddangos yn Rhan A o'r ffurflen hon

### E1 Taliad i enwebai

Rwy'n awdurdodi'r unigolyn a enwir isod i gael y swm sy'n ddyledus ar fy rhan.

#### Enw'r enwebai

#### Cyfeiriad yr enwebai

Cod post

### E2 Taliad i chi mewn cyfeiriad arall

Anfonwch yr ad-daliad ataf yn y cyfeiriad a ddangosir isod ac nid i'm cyfeiriad preswyl - fel y dangosir yn Rhan A

Cod post

## Rhan F Datganiad

Rwy'n cadarnhau'r canlynol:

- mae gen i hawl fuddiannol i'r incwm o'r ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen hon
- mae'r wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred

Rwy'n gwneud cais am ryddhad wrth y ffynhonnell rhag Treth Incwm y DU a byddaf yn rhoi gwybod i Gyllid a Thollau EM os oes unrhyw newid i'r wybodaeth a roddwyd gennyf yn y ffurflen hon. Gweler Rhan C o'r nodiadau i gyfrifo'r swm sy'n ad-daladwy.

Rwy'n hawlio ad-daliad Treth Incwm y DU:

- Rwyf wedi cyfrifo mai'r swm sy'n ad-daladwy i mi yw £  •   
- os ydych am gyfrifo'r swm sy'n ad-daladwy, defnyddiwch y 'Daflen waith' yn y nodiadau
- Rwyf am i Gyllid a Thollau EM gyfrifo'r swm sy'n ad-daladwy i mi - ticiwch y blwch

#### Llofnod

#### Dyddiad DD MM BBBB

<input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/> <input type="text"/>
---	---	---	---	---